/Ebrill 2009
Cylchlythyr Chwarterol
Eglwys Bresbyteraidd Cymru

www.ebcpcw.org.uk

Rhwyd-waith rhifyn 06

ESIAMPL DDA I BAWB

Ar olwg gyntaf, dim ond pentref bach cysglyd yw Llanmadog ym mhen pellaf Penrhyn Gŵyr. Y distawrwydd a'r golygfeydd syfrdanol dros aber yr afon Llwchwr sy'n denu'r sylw. Ond mae hon yn gymuned sydd wedi ennyn sylw cenedlaethol.

"'Boutu tair neu bedair blynedd yn ôl o'dd y Swyddfa Bost wedi cau," meddai Randolph Jenkins, sydd wedi byw yn y pentref ers dros hanner canrif. "Cynhalion ni gyfarfod cyhoeddus jyst er mwyn ffeindio mas beth oedd pobl yn meddwl."

Ymysg awgrymiadau'r pentrefwyr roedd agor swyddfa bost a siop gydweithredol. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, ym mis Ionawr 2007, agorwyd Siop y Bobl.

"Ni wedi dechrau cwmni," eglura Randolph dros baned yn y caffi bychan yng nghefn y siop, "ac mae 'boutu 90 y cant o bobl y pentref yn gyfranddalwyr. Ni wedi trefnu gyda'r Co-op i gael prisiau llai nag arfer ac ry'n ni'n gallu rhoi gwybod i bobl bo ni'n gwerthu popeth." Ac hyd yn oed ar fore oer ym mis Chwefror, mae digon o fynd a dod yn y siop, a enillodd wobr y Busnes Lleol Mwyaf Cefnogol yng Ngwobrau Adfywiad Cymunedol 2009 Arglwydd Faer Abertawe.

MWY NA DIM OND SIOP

"Mae'r pentref yn dda am godi arian hefyd," meddai Randolph. Llwyddodd y trigolion i godi £14,000 ar gyfer elusennau megis Tearfund y llynedd, gan gynnal gweithgareddau yn amrywio o ganu carolau yn y capel i râs hwyl.

Ond yn bwysicach na dim efallai, mae ysbryd cymunedol yn perthyn i'r capel hefyd. Chwech aelod sydd yng nghapel y Drindod, Cheriton, ond yn ôl y gweinidog, y Parchedig Iain Hodgins, mae nhw'n dda iawn am ddechrau a chynnal gweithgareddau eu hunain.

Mae Randolph yn cadarnhau hyn. "Hyd nes pum mlynedd yn ôl, roedd dwy ysgol Sul, â'r athrawon yn gyrru o un i'r llall," meddai, gan gyfeirio at yr eglwys ym mhentref cyfagos Burry Green. "Ond nawr mae'r ddwy eglwys yn rhannu ysgol Sul. Mae'n gryf iawn nawr."

Mae gan yr eglwysi ffordd wreiddiol o sicrhau bod y plant yn dod i'r ysgol Sul: gwasanaeth tacsi. "Mae'r plant yn dwlu arno fe," meddai Randolph, sydd wedi nôl y plant o'u cartrefi ym mws mini cymunedol Llangynydd bob bore dydd Sul ers pum mlynedd. Mae rhai o aelodau capel Burry Green yn talu am logi'r bws, gan sicrhau parhad yr ysgol Sul.

Unwaith y mis, mae'r ysgol Sul yn cynnal gwasanaeth teuluol, sy'n denu cynulleidfa gref. "Wedyn ma'r Y-Zone," meddai Randolph, "clwb i blant a phobl ifanc unwaith y mis. Ni'n mynd i fowlio deg neu i'r orsaf bâd achub – pethe' fel 'na."

Bob gwanwyn mae Randolph yn mynd â phlant yr Y-Zone i Goleg y Bala am benwythnos. "Mae'r plant yn cael hwyl ac mae'r coleg yn dda gyda nhw. 'They've got it right', ti'n gwybod?" meddai.

Cafodd y plant gymaint o hwyl yno y llynedd fel y daeth myfyrwyr blwyddyn gap y Coleg i lawr i Benrhyn Gŵyr i gynnal penwythnos arall o weithgareddau.

Ond mae aelodau capel y Drindod yn credu hefyd bod angen gwneud y gorau o'u hadeilad. Mae Linda, gwraig Randolph, wedi dechrau côr sy'n agored i bawb yn y pentref. Doedd rhai o'r trigolion erioed wedi bod yn y capel o'r blaen ond nawr maent yn defnyddio'r adeilad bob nos Fawrth. "Peth da yw'r côr i'r capel," meddai Randolph yn falch.

YN BAROD I WEITHREDU

Ond gyda llawer o bentrefi Cymru yn wynebu dirywiad, beth sy'n gwneud Llanmadog yn wahanol? Eglura Randolph: "Ni'n lwcus iawn yn y pentref 'ma achos ma lot o bobl sy'n fodlon gwneud pethe – ceffyle' blaen. Mae'r cyngor lleol yn barod i wneud pethau hefyd."

Hanner cant o bobl yn unig sydd yn byw yn Llanmadog. Byddai wedi bod yn hawdd iawn ochneidio a gwneud dim wrth i'r siop gau ac wrth i'r ysgol Sul wanhau. Ond maent wedi codi ar eu traed, gan fynnu parhad i fywyd cymunedol y pentref. Tybed os oes gobaith felly i bentrefi bychain eraill yng Nghymru?

// Mae'r llun uchaf yn dangos Randolph Jenkins (dde) gyda rhai o wirfoddolwyr Siop y Bobl

SWNIO'N WYCH!

Ydych chi erioed wedi ystyried trefnu cyngerdd, gig neu ddigwyddiad tebyg ond wedi cael traed oer wrth ddeall faint mae llogi system sain yn ei gostio?

Er mwyn eich helpu i gynnal digwyddiadau o'r fath, mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi prynu system sain newydd fydd ar gael i eglwysi neu ysgolion Sul ei benthyg.

"Dwi'n falch iawn o weld EBC yn buddsoddi yn yr offer sain newydd yma," meddai Aled Ifan, gweithiwr plant ac ieuenctid a chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Mawl a Chenhadaeth, a sefydlwyd er mwyn gwneud y gorau o'r offer.

"Mae'n gyfle gwych i ni fywiogi mawl o fewn ein heglwysi a defnyddio dulliau modern o genhadu. A dyna yw gobaith y pwyllgor, sef trefnu digwyddiadau bywiog a byrlymus, teithiau cenhadol gyda grwpiau roc Cristnogol ac yn y blaen. Mae'r offer yma yn cynnig cyfle gwych i ni wireddu cynlluniau o'r math yma yn gymharol ddi-drafferth."

Gall unrhywun sy'n trefnu gweithgarwch yn enw Eglwys Bresbyteraidd Cymru fenthyg y system yn rhad ac am ddim, ac mae pris rhesymol iawn ar gyfer unrhyw weithgarwch Cristnogol arall. Gallwch hefyd drefnu bod technegydd yn dod i'ch helpu i osod yr offer.

Ewch i www.llogioffer.com am wybodaeth bellach neu ffoniwch ni ar 02920 627465.

CAU Y DRWS AC AGOR DRYSAU

Munud i Feddwl gyda Gareth Edwards, Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd

Roedd Sul, 7 Rhagfyr, yn arbennig o drwm i mi a'm blaenoriaid ac i aelodau Capel Peniel, Tremadog, ac Ebeneser, Borth-y-gest. Gwelwyd cau drysau'r ddau gapel am y tro olaf ar yr un Sul.

Adeiladwyd Capel Peniel Tremadog yn 1810 ac mae'n adeilad o bwysigrwydd hanesyddol a phensaernïol arbennig iawn. Fe'i cofrestrwyd gan CADW yn adeilad rhestredig Gradd I, un o'r ychydig o adeiladau prin yng Nghymru a gofrestrwyd yn y categori hwn. Bellach aeth costau adnewyddu adeilad Peniel ymhell y tu hwnt i adnoddau ariannol yr eglwys, hyd yn oed wedi derbyn grantiau o wahanol gyfeiriadau.

Mae safle Capel Ebenser yn gwbl arbennig yng nghanol pentref Borth-y-gest yn wynebu'r môr. Mae'n amheus a oes gwell safle yng Nghymru gyfan sy'n cael golygfa mor rhyfeddol o'i ddrws ffrynt. Ond aeth nifer aelodaeth Ebenser yn fychan iawn, a chostau cynnal a chadw'r adeilad yn faich. Nid oedd modd bellach, ysywaeth, i gario ymlaen yno.

Felly, ar fore Sul, 7 Rhagfyr, cynhaliwyd yr oedfa olaf yn adeilad Capel Peniel. Brynhawn yr un Sul cynhaliwyd yr oedfa olaf hefyd yn Ebeneser.

Cau y drws oedd ar ein meddwl y Sul hwnnw ac o'r herwydd roedd ein calonnau yn bur drwm. Ond rhan o'r stori yn unig yw hynny. Y rhan arall o'r hanes yw bod yna stori agor drysau hefyd! Mae'r ddwy eglwys yn parhau!

Mae cynulleidfa Eglwys Peniel yn parhau i addoli ac wedi symud i'r Neuadd Goffa ar y Sgwâr yn Nhremadog. Bydd adeilad Peniel yn cael ei gadw i'r dyfodol gan ei fod wedi ei drosglwyddo i elusen sydd yn diogelu adeiladau sy'n arbennig eu harwyddocâd i'r genedl. Mae Eglwys Ebenser, Borth-y-gest hefyd yn parhau, gan iddi uno â Chapel y Porth, Porthmadog ar y Sul cyntaf yn y flwyddyn newydd.

Cau y drws a gweld agor drysau.

Gobaith gwawr arall yn ymestyn o'n blaenau – gobaith cyfle newydd mewn cyfnod gwahanol.

Daeth arwyddocâd eto inni yn y frawddeg **'Marw i fyw mae'r haf o hyd'** a daeth ystyr pellach i'r sylweddoliad fod yn rhaid gollwng gafael, ambell dro, er mor boenus y gall hynny fod, er mwyn dal gafael ar yr hyn sy'n wir bwysig. Na, nid cau y drws yw diwedd y stori hon, ond cyfle mawr yn agor drysau.

Gŵp mam o'i phlentyn yng Nghanolfan Margaret Morris

Randolph Jenkins (ar y dde) ac Ivor Williams, un o'r gwirfoddolwyr, tu allan i Siop y Bobl yn Llanmadog

CEFNOGI RHIENI A THEULUOEDD DINBYCH

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cefnogi rhieni a theuluoedd un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae Canolfan Margaret Morris yn Ninbych yn canolfan blant sydd yn cynnig cefnogaeth ar bob agwedd o sgiliau rhieni a bywyd teuluol.

Sefydlwyd y Canolfan wedi i aelodau Capel Mawr, Dinbych, benderfynu helpu trigolion ystâd dai ddifreintiedig Stryd Henllan. Canlyniad hyn oedd sefydlu partneriaeth rhwng yr Eglwys, Cyngor Sir Ddinbych a chyrff eraill. Cyfrannodd yr Eglwys tuag at waith ymchwil manwl i ganfod anghenion y trigolion, ac mae'n parhau i gyfrannu tuag at gostau rhedeg y Canolfan.

Yvonne Pool yw Cydlynydd Prosiect y Canolfan, ac mae'n gweithio yno ers yr agoriad swyddogol yn 2007. "Roedd yr ymchwil yn dangos fod pobl isio canolfan gymunedol a fyddai'n cynnig pob gwasanaeth mewn un lle," meddai. "Rŵan mae'r Canolfan yn llwyddiannus iawn, felly mae'r ymchwil wedi ei gadarnhau."

Mae cyfran uchel o ddiweithdra, rhieni sengl a beichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau yn ystâd Stryd Henllan. Mae'r Canolfan yn ceisio lleddfu'r problemau yma drwy gynnig gwasanaethau fel cylch Ti a Fi, clinig babanod, cyrsiau magu hyder i rieni a grŵp i famau yn eu harddegau. Mae yno hefyd grŵp i rieni gefeilliaid a sesiynau cwnsela teuluol Relate.

"Mae llawer o bobl yn elwa o'r arian yma," meddai Yvonne. "Rydan ni'n falch ofnadwy bod yr eglwys yn parhau i'n noddi ni. Mae gan y gwaith yma ethos Gristnogol – yn ymatal rhag barnu ac yn groesawgar. Rydan ni'n ceisio trosglwyddo gwerthoedd a'r ffordd Gristnogol o wneud pethau."

"Roedd 'na lawer o bobl o du allan yr ardal yn defnyddio'r Canolfan i ddechrau ac roedd y rhieni lleol yn amheus braidd achos doeddan nhw ddim yn gwybod be oedd yma. Ond rŵan ma' nhw'n galw heibio am baned – mae nhw'n gwybod y gallan nhw ymweld â ni."

Mae Nerys Biddulph, ysgrifennydd Eglwys Rehoboth ym Mhrestatyn, ar bwyllgor rheoli'r Canolfan. Felly pam ei bod hi'n gefnogol i'r fenter?

"Nath 'na brifathro lleol ddweud stori yn un o'r cyfarfodydd," meddai. "'Wrth gyrraedd yr ysgol un bore,' medda fo, 'roedd 'na blentyn bach saith oed ac ro'n i'n gallu gweld bod ganddo fo rywbeth o dan ei gôt. 'Handgun' oedd o. Mae na ddiwylliant gynnau ym Mryn Stanley.'.

"A dyna pam dwi'n meddwl bod y gwaith yma'n angenrheidiol a pam dwi wir yn ei gefnogi o. Dwi ddim isio i be sy'n digwydd yn Llundain efo gynnau ddigwydd yn Ninbych."

Mae ffurflenni gwerthuso, sgyrsiau anffurfiol a'r nifer uchel sy'n defnyddio'r canolfan yn dangos ei bod yn llwyddiant aruthrol. "Mae pobl yn hoffi'r grwpiau, wrth eu boddau efo'r canolfan ac isio mwy o gyrsiau magu hyder. Nath rhywun awgrymu cyrsiau rheoli straen hefyd," eglura Yvonne gan wenu'n llydan.

"Mae'n hyfryd gweld pobl yn dod i mewn yn fwy positif na pan welais i nhw gyntaf."

BETH ALLA'I EI WNEUD?

Mae'r materion yma yn ein heffeithio i gyd – gallwn helpu i newid pethau!

Ym mis Rhagfyr bydd arweinwyr byd yn cyfarfod yn Copenhagen er mwyn llunio cytundeb newydd ar gyfer delio â her **newid hinsawdd**. Gallai'r cytundeb hwn gael effaith fawr ar y blaned ac ar y tlodion sydd eisoes yn dioddef oherwydd newid hinsawdd.

Mae **Cymorth Cristnogol** yn galw ar eu cefnogwyr i'w helpu i ymgyrchu dros gytundeb effeithiol a theg drwy gymryd **Llw Copenhagen.**

Mae pobl sy'n cymryd y llw yn gaddo y byddant yn galw ar y cyfoethogion i ad-dalu eu dyled carbon, yn lleihau eu hôl-troed carbon eu hunain ac yn ddweud wrth eraill am yr ymgyrch.

Ydych chi'n barod i gymryd y llw? Ewch i www.cymorthcristnogol.org a chliciwch ar "Copenhagen".

A pheidiwch ag anghofio am **Wythnos Cymorth Cristnogol**, sy'n canolbwyntio eleni ar Weriniaeth y Congo. I gael gafael ar adnoddau a deunyddiau addoli yn rhad ac am ddim, ewch i'r wefan neu ffoniwch swyddfa Caerdydd ar 02920 844646, Bangor ar 01248 353574 neu Gaerfyrddin ar 01267 237257.

"Frodyr a chwiorydd, beth ydy'r pwynt i rywun honni ei fod yn credu, ac wedyn gwneud dim byd o ganlyniad i hynny?" (Iago 2:14) (Beibl.net)

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, cysylltwch â ni!

Mark Evans yn derbyn croeso arbennig yng Nghapel y Pentre, Llanrhaeadr

BARA YN AIL-ADEILADU BYWYDAU

Bydd rhai o ddarllenwyr **Rhwydwaith** yn cofio darllen hanes y Barchedig Nan Powell-Davies yn rhifyn Gorffennaf 2008. Mae Nan yn gaplan yng Ngharchar Altcourse, Lerpwl, a chyda chefnogaeth Eglwys Bresbyteraidd Cymru, mae hi wedi sefydlu BARA, asiantaeth Gristnogol sydd yn cynnig cymorth i gyn-garcharorion wrth iddynt ddychwelyd adref.

Lansiwyd BARA yng Nghynhadledd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru ym mis Chwefror. Mae gwirfoddolwyr o eglwysi Caernarfon wedi eu hyfforddi i gefnogi cyn-droseddwyr a'u teuluoedd, a bydd y cynllun yn cael ei ehangu i rannau eraill o ogledd Cymru yn y dyfodol agos.

Eglwys Noddfa sy'n cydlynu BARA Caernarfon. "Mae hwn yn angen cymdeithasol," meddai Mererid Mair, gweithwraig gymunedol yr eglwys, "cefnogi teuluoedd pan ma ganddyn nhw rywun yn y carchar a chefnogi pobl wedi iddyn nhw gael eu rhyddhau. Mae nhw'n trio ail-ddechra' eu bywyda' ond mae 'na lot o rwystrau o'u blaena' nhw.

"Ma'n bwysig bod yr eglwys efo pobl mewn amseroedd anodd," ychwanega. "Da ni efo nhw pan ma nhw'n wael neu wedi colli rhywun ond be ydan ni'n neud pan ma nhw neu rywun o'r teulu wedi mynd i'r carchar?"

Yn ôl Nan, mae BARA yn gyfle i'r eglwysi ddangos eu consŷrn am eraill. "Mae eglwysi yn y wlad yma yn wynebu cyfnod o argyfwng," meddai. "Credaf mai canlyniad i'n hunanoldeb ni fel eglwysi, o ddal gafael ar adeiladau ac ar draddodiad yw hyn. Mae BARA yn cynnig cyfle euraid i ni fel eglwysi i faeddu ein dwylo yn anhunanol. 'Yr oeddwn yng ngharchar' meddai Iesu – a be wnaethom ni fel eglwysi? Gresynnu eich bod yno? Yntau dod i ymweld â chi?!"

"Nid gwaith yr eglwys yw cau ein hunain yn griw bach am awr ar y Sul yn ein capeli mawr tamp, ond ymateb gyda chariad Duw i angenion dyfnaf cymdeithas."

CWIS I BLANT MYRDDIN

Cafodd deg o dimau o ysgolion Sul gogledd Myrddin gyfle i ddangos eu gwybodaeth feiblaidd wrth gystadlu mewn cwis a drefnwyd gan Fenter Cydenwadol Gogledd Myrddin.

"Roedd dau dîm yn cystadlu ar y tro, gyda phedwar math o gwestiynau ym mhob cystadleuaeth," meddai Nigel Davies, Swyddog Plant ac Ieuenctid y Fenter. "Yn gyntaf, roedd cwestiynau ar faes gosod penodol, sef Joseff yn rheolwr yr Aifft ac Iesu'n tawelu'r storm ar y llyn. Wedyn roeddem yn dangos llun beiblaidd ar y Powerpoint ac roedd yn rhaid i'r tîm ddweud pa stori yn y Beibl roedd y llun yn cyfeirio ato. Yna roedd pob aelod o'r tîm yn cael cwestiwn cyffredinol unigol gyda dewis o dri ateb, ac yn olaf, cwestiynau cyffredinol am dri munud, gyda'r timau am y cyntaf i ateb trwy wasgu'r bysyrs."

Yn fuddugol yn y rownd derfynol ac yn derbyn cwpan sialens roedd ysgol Sul Penuel, Caerfyrddin, gydag ysgol Sul Providence, Llangadog, yn ail. Roedd aelodau'r ddau dîm hefyd yn cael tlysau unigol am gyrraedd y rownd derfynol.

"Roedd y gystadleuaeth yn un fywiog a difyr. Cael hwyl wrth gymryd rhan oedd y peth mawr, ond yn sgîl hynny, mae'n amlwg bod y plant wedi dysgu llawer, a gobeithio magu blas tuag at Air Duw," meddai Nigel Davies, a oedd yn gyfrifol am lunio'r cwis.

Ers cynnal y cwis ym mis Chwefror mae plant gogledd Myrddin hefyd wedi treulio penwythnos yng Ngoleg Trefeca ac wedi cael diwrnod o bêl droed a phêl rwyd yng Nghanolfan Hamdden Rhydaman.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r fenter, cysylltwch â Nigel Davies ar 01994 230049 neu gogmyrddin@uwclub.net.

Os am drefnu cwis eich hun, gallwch fenthyg offer gan y Cyngor Ysgolion Sul – cysylltwch ag Aled Davies ar 01766 810092 neu ysgolsul@hotmail.com.

Yn fuddugol: timau cwis Penuel (uchod) a Llangadog (dde)

O'R YSGOL SUL I EUROVISION

Mae Mark Evans, un o gyn-ddisgyblion ysgol Sul Llanrhaeadr ger Dinbych, wedi dangos bod yr ysgol Sul yn le gwych i fagu dawn berfformio.

Daeth Mark yn drydydd yn Your Country Needs You, y rhaglen deledu oedd yn dangos ymdrechion yr Arglwydd Andrew Lloyd Webber i ganfod rhywun i gynrychioli Prydain yng Nghystadleuaeth Gân yr Eurovision.

"Mae o'n hogyn dymunol iawn," meddai'r Parchedig S Wayne Roberts, gweinidog Capel y Pentre, Llanrhaeadr. "Roedd Mark bob amser yn ffyddlon i'r ysgol Sul a gweithgareddau'r plant ac yn mwynhau cymeryd rhan yn gyhoeddus, ac yn medru gwneud bob dim hefo graen ac ystyr."

Bu camerâu y BBC yng Nghapel y Pentre yn ffilmio Mark yn cael ei groesawu gan drigolion Llanrhaeadr.

"Mi gofiaf am byth yr olygfa yn y capel y diwrnod hwnnw pan gerddodd Mark i mewn yn disgwyl cyfarfod rhyw ddeugain o'i gyn-aelodau, a'r capel yn orlawn a'r fonllef a'r gymeradwyaeth yn anhygoel," meddai'r Parchedig Roberts. "Roedd pawb o'r pentref, yn cynnwys dros hanner cant o blant yr ysgol, wedi dod ynghyd i ddangos eu cefnogaeth ac edmygedd ohono, a'r plant wedi gwirioni yn llwyr. Gofynnodd un o'r plant i Mark os oedd o yn berchen ar limousine!"

"Mi ges i wâdd i'r rownd derfynol yn Llundain hefyd," meddai. "Roedd 'na gannoedd o bobl isio mynd o rownd ffor'ma ond nath y BBC fy ffonio i gan 'mod i wedi helpu i drefnu'r digwyddiad yn y capel. Roedd o'n brofiad gwefreiddiol ond brawychus, ac roedd ein nerfa' ni'n waeth na'i nerfa fo!"

"Roedd gweld y bachgen bach deg oed y gwnes i gyfarfod am y tro cyntaf ym 1996 ar lwyfan y BBC yn Llundain yn wefr, ac roedd llawer i ddeigryn wrth rannu balchder ei deulu ohono. Ond coron y cwbl i mi oedd ei glywed mewn mwy nag un cyfweliad yn datgan ei werthfawrogiad o'r Ysgol Sul a'r Ŵyl Ysgol Sul lle cafodd y cyfle cynta' erioed."

Bydd Capel y Pentre, Llanrhaeadr, yn dathlu daucanmlwyddiant ym mis Mai.

Bydd y dathliadau yn cynnwys cyngerdd ar Fai 16 yng nghwmni dau o blant talentog yr Eglwys, sef Mark Evans a'r delynores Carys Wyn Topping, yn ogystal â Hogia'r Berfeddwlad a Meirion Wyn Jones, enillydd Rhuban Glas Eisteddfod Genedlaethol 2008. Tocynnau yn £10.

Mae mwy o fanylion am y dathliadau ar ein gwefan.

"Y CAPEL YN ORLAWN A'R FONLLEF A'R GYMERADWYAETH YN ANHYGOEL"

APÊL SIERRA LEONE: NEWYDDION DIWEDDARAF

Beth ddigwyddodd i'r £250,000 a godwyd yn 2007 gan aelodau Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar gyfer apêl Sierra Leone Cymorth Cristnogol?

Gallwch weld sut yn union mae'r arian wedi cael ei ddefnyddio drwy gael golwg ar DVD newydd sydd yn cael ei anfon i'n holl eglwysi.

"Bu'r ymateb i Apel Sierra Leone yn wych a bydd y ffilm yn ffordd newydd, gyffrous i ddiolch i'r eglwysi am eu haelioni a dangos sut mae'r arian yn llythrennol ar waith yn y wlad," meddai Jeff Williams, Ysgrifennydd Cenedlaethol Cymorth Cristnogol yng Nghymru.

"Cewch gyfle i weld ambell wyneb cyfarwydd a chlywed straeon newydd sbon am y ffyrdd allweddol mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn gweithio yno. Fy ngobaith yw y bydd y ffilm yn dangos yn glir y gwahaniaeth sydd yn cael ei wneud gan bobl Cymru yn Sierra Leone ac y bydd yn ysbrydoliaeth i'r eglwysi i ddal ati i gefnogi gwaith adfywiol Cymorth Cristnogol."

Mae gwasanaeth i gyd-fynd â'r DVD hefyd, felly beth am ddefnyddio'r ddau yn eich heglwys er mwyn dangos sut mae eich arian **chi** yn cael ei ddefnyddio?

(Ni wariwyd dim o arian yr apêl wrth gynhyrchu'r DVD yma. Aeth pob ceiniog a gasglwyd drwy'r apêl at waith Cymorth Cristnogol yn Sierra Leone.)

GOBAITH YN Y GOGLEDD

Mae Henaduriaeth y Gogledd, sef yr eglwysi Saesneg eu hiaith yng ngogledd Cymru, wedi penodi gweithiwr datblygu newydd er mwyn helpu eglwysi'r ardal i wneud y gorau o'u hadnoddau.

Cafodd y Parchedig Mike Ward, sydd â'i wreiddiau yn ardal Wrecsam, ei ordeinio gan Eglwys yr Alban ac mae wedi cychwyn ar y gwaith ers dechrau'r flwyddyn.

"Dwi'n falch iawn o gael bod nôl yng ngogledd Cymru, lle y treuliais lawer o'm plentyndod," meddai Mike. "Dwi'n cael mwynhad mawr wrth weld pobl yn cyrraedd eu potensial o ran eu talentau a'u gallu, a dwi'n gobeithio datblygu rhaglenni hyfforddiant yn cynnwys arwain mawl, cwnsela yn dilyn profedigaeth ac ati. Dwi wedi gwneud rhyfaint o hyfforddiant anabledd a chyfryngau hefyd, a bydd rhai eglwysi yn gallu elwa o hynny gobeithio."

Daeth Mike ag aelodau o'r henaduriaeth at ei gilydd ar gyfer seminar yn yr Wyddgrug yn ddiweddar, er mwyn llunio rhaglen genhadaeth a gweinidogaeth a fydd yn sail i waith yr henaduriaeth am y blynyddoedd nesaf. Roedd y Parchedig Dafydd Andrew Jones, Cyfarwyddwr y Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth yno hefyd.

"Mae Mike yn ŵr profiadol iawn yn y maes o ddatblygu bywyd eglwysig ac mae'n amlwg bod ganddo weledigaeth eglur y mae eisoes yn ei gwireddu drwy nifer o raglenni hyfforddiant," meddai'r Parchedig Jones yn dilyn y seminar.

"Fe fyddwn i'n hoffi gweld pob un o'n henaduriaethau ni yn penodi rhywun fel Mike. Ond byddwn hefyd yn cyfieithu rhai o'i adnoddau i'r Gymraeg er mwyn yr henaduriaethau eraill."

AGOR Y LLYFR

"Storïau Beibl? Y storïau gorau gei di!" meddai Aled Davies o'r Cyngor Ysgolion Sul, gan sôn am gynllun newydd i ddod â'r Beibl i ysgolion Cymru.

Nod **Agor y Llyfr** yw annog aelodau eglwysi i ddarllen stori o'r Beibl bob wythnos i blant ysgolion cynradd.

Mae Agor y Llyfr yn gynllun sy'n bodoli eisoes yn Saesneg o dan y teitl 'Open the Book'. Mae cynllun peilot Saesneg wedi ei gynnal yn Nhreforys, ac mae mil a hanner o blant yno yn clywed stori Feiblaidd yn wythnosol.

Mae'r cynllun Cymraeg wedi ei seilio ar Feibl newydd, sef **Beibl Newydd y Storïwr**. Beibl yw hwn sydd wedi ei lunio yn arbennig er mwyn ei ddarllen yn uchel i blant. Mae llyfr nodiadau i gyd-fynd â'r Beibl er mwyn helpu'r rhai fydd yn darllen storïau, a bydd y Cyngor Ysgolion Sul hefyd yn cynnal nosweithiau hyfforddiant er mwyn helpu eglwysi i gymryd rhan.

"Nod y cynllun yw sicrhau bod storiau pwysig y Beibl yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall, gan gadw'r storiau yn fyw ar gof," meddai Aled Davies. "Dim efengylu fel y cyfryw ydi'r pwrpas, ond darllen y stori. Y syniad ydi y bydd y plant wedi clywed 80 o storïau gorau'r Beibl ymhen dwy flynedd."

"Dros y misoedd nesaf fyddwn ni'n dechrau'r broses o gysylltu efo ardaloedd efo'r deunydd i weld os ydi'r eglwysi yn awyddus i bartneru efo ysgol er mwyn gallu dechrau ym mis Medi."

Bydd Agor y Llyfr yn cael ei lansio ar 2 Mai yng Ngŵyl y Fedwen Lyfrau yn y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth.

Mae Agor y Llyfr yn gynllun y gall eglwysi a gofalaethau o bob math fod yn rhan ohono. Os hoffai eich heglwys chi gymryd rhan, yna cysylltwch ag Aled Davies, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6SH neu ar 01766 810092 neu ysgolsul@hotmail.com.

DYDD GŴYL DDEWI YNG NGHAERDYDD

Mae'r llun uchod yn dangos plant ysgol Sul Eglwys y Crwys, Caerdydd, yn eu gwisgoedd traddodiadol – a chrysau rygbi! – Cymreig ar ddydd Gŵyl Ddewi.

Ar fore cyntaf Mawrth roedd gwasanaeth y plant yn y capel, gyda cherddorfa'r ieunctid yn cyfeilio. Codwyd £160 at apêl Arch Noa (Ysbyty Plant Cymru) – sef un o elusennau'r ysgol Sul eleni – drwy gynnig paned a phice ar y maen wedi'r gwasanaeth.

Roedd hwn yn achlysur arbennig o hapus oherwydd derbyniwyd teulu ifanc yn aelodau newydd ac roedd bedydd hefyd. Pan aeth **Rhwydwaith** i'r wasg, roedd bedydd wedi bod yn y Crwys bob tro y bu'r gweinidog, y Parchedig Glyn Tudwal Jones, yno eleni!

DYDDIADUR

Ebrill

10-13 Penwythnos y Pasg

25 Y Weinidogaeth Iacháu: Dysgeidiaeth, Eiriolaeth a Chymun; Capel Lôn y Felin, Llangefni, 10.30-3.00

Mai

02 Lansio Agor y Llyfr, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

10-16 Wythnos Cymorth Cristnogol

16 Miri Mai, Coleg y Bala

16-17 Dathlu Daucanmlwyddiant Capel y Pentre, Llanrhaeadr

25-30 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd

31 Diwrnod gweddi Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Mehefin

20 Y Picnic Mawr, Coleg y Bala

Mae mwy o fanylion ar ein gwefan: www.ebcpcw.org.uk

CHWILOTAIR Y PASG

Dewch o hyd i'r geiriau canlynol:

Atgyfodi
Bara
Barabbas
Bedd
Bradychu
Croes
Gethsemane
Golgotha
Groglith
Gwin
Iesu
Joseff
Jwdas
Swper olaf
Pasg
Pilat

D	B	A	R	A	B	B	A	S	G	H
D	A	P	I	L	A	T	E	E	I	L
E	S	E	L	I	W	O	T	D	I	A
B	G	W	I	N	R	H	O	M	A	U
G	S	A	P	C	S	F	E	S	J	H
A	W	E	D	E	Y	I	A	D	O	C
O	R	D	M	G	R	D	Y	N	S	Y
U	O	A	T	L	W	O	Y	N	E	D
S	N	A	B	J	F	Y	L	W	F	A
E	G	O	L	G	O	T	H	A	F	R
I	H	T	I	L	G	O	R	G	F	B

(Mae ch, dd, ff a th yn cyfrif fel dwy lythyren.)

Allwch chi ddod i hyd i'r frawddeg gudd ymysg y llythrennau sydd ar ôl?

SYLWADAU? NEWYDDION? HYSBYSEBION?

Rhowch wybod!

Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD
02920 627465
swyddfa.office@ebcpcw.org.uk

Dylunio: Kutchibok.co.uk